Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Niwbwrch
# Niwbwrch
# Llanfairpwll
# Ynys Môn
# LL61 6TE

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru



**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 14/03/2017**

## Cyd-destun

Mae ysgol gynradd Niwbwrch yn gwasanaethu pentref Niwbwrch a'r cyffiniau. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 63 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 10 disgybl oed meithrin rhan-amser. Caiff y disgyblion eu haddysgu mewn 3 dosbarth oed cymysg, gan gynnwys disgyblion oed meithrin.

Tua 71% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae 25% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae oddeutu 44% o ddisgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion dan ofal yr awdurdod.

Mae'r ysgol wedi ffederaleiddio gydag Ysgol Dwyran ers Medi 2011. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ddiwedd tymor yr haf 2016, gan ddechrau ar ei dyletswyddau fel pennaeth dros dair ysgol sef Llangaffo, Dwyran a Niwbwrch yn Hydref 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Rhagfyr 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer ysgol gynradd Niwbwrch yn 2016-201 yw £5,179. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd Môn yw £13,429, a'r lleiafswm yw £2,902. Mae ysgol gynradd Niwbwrch yn y 10fed safle o'r 47 ysgol gynradd ym Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul ysgol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn
- llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith
- patrwm amlwg o gynnydd yng nghanran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefelau uwch ymhob pwnc craidd dros y ddwy flynedd diwethaf
- y ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn gadarn
- athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio profiadau priodol sy'n ysgogi diddordeb ymysg y disgyblion yn effeithiol
- gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion

Fodd bynnag:

- nid yw ychydig o ddisgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd
- mae safonau darllen lleiafrif o ddisgyblion islaw'r disgwyliedig
- nid yw'r ysgol yn cynllunio profiadau priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- nid yw'r addysgu bob amser yn ymateb i anghneion pob disgybl

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ac mae'n arwain trwy esiampl
- y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol yn seiliedig ar godi safonau
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- y ddogfen hunanarfarnu yn rhoi darlun cywir o'r ysgol ac yn nodi cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn glir
- cyswllt clir iawn rhwng yr hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion

A3 Sicrhau bod bod yr addysgu yn cynnig lefel briodol o her a bod adborth athrawon i waith disgyblion yn cynnig arweiniad clir i ddisgyblion wella eu gwaith

A4 Cryfhau'r bartneriaeth gyda rhieni

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Dros gyfnod o amser mae medrau llythrennedd mwyafrif y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn wan. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn. Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn unol â'u targedau. Fodd bynnag, yn gyffredinol nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud digon o gynnydd yn eu dysgu.

Mae medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae llawer ohonynt yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau ac yn ymateb yn hyderus ar lafar, gan ddefnyddio geirfa a chystrawen Cymraeg cywir yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall llawer sgwrsio'n frwdfrydig am eu gwaith gan ddefnyddio geirfa naturiol Gymreig. Enghraifft o hyn yw'r modd maent yn mynegi barn am ganolfannau hamdden fel rhan o'u gwaith thema a'r gadw'n iach. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn briodol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod yn aeddfed gan ddefnyddio geirfa fwy ymestynnol, er enghraifft, wrth iddynt gynllunio taith i wylio gêm rygbi fel rhan o'u gwaith mathemateg.

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen gyda chywirdeb a mynegiant priodol. Maent yn gallu trafod hoff gymeriadau ar lefel syml iawn gydag ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn cynnig rhesymau dilys. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn defnyddio medrau ffoneg yn effeithiol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos hoffter tuag at lyfrau ac yn darllen yn briodol yn y ddwy iaith gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Mae rhan fwyaf yn medru cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau gan gynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol mae safonau darllen lleiafrif y disgyblion islaw'r safon a ddisgwylir.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu syniadau'n briodol mewn gwaith ysgrifenedig ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft, wrth ysgrifennu hanes Mari Jones o'r Bala. Ar y cyfan, maent yn sillafu ac yn atalnodi eu gwaith yn gywir. Er hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion yn amrywio ac ehangu eu brawddegau yn ddigon cyson. Mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith parod yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ysgrifennu'n estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Maent yn atalnodi eu gwaith yn gywir ac yn defnyddio geirfa benodol i ymateb i'r dasg. Enghraifft o hyn yw'r llythyr a ysgrifennwyd yn y Gymraeg i gwyno am nwyddau a brynwyd oddi ar y rhyngrwyd ac arfarniad o ymchwiliad gwyddonol golau a sain yn Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn briodol, ond mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn llwyddo i drin data'n effeithiol a chreu graff bloc o'r canlyniadau

yn annibynnol. Mae mwyafrif yn cymhwyso'u medrau rhif yn addas i ddatrys problemau syml yn seiliedig ar waith y dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw'r modd mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yng nghyd-destun arian wrth drefnu parti. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi ac yn eu llyfrau mathemateg yn addas. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau priodol i ddod o hyd i berimedr siapiau 2D a chyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau afreolaidd yn gywir. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn agweddau eraill o'r cwricwlwm.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion dealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Mae disgyblion yn gwneud defnydd cyfyngedig o'u medrau TGCh i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau'n addas i gyflwyno gwybodaeth a mewnfudo llun i'w gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o raglenni prosesau geiriau ac aml-gyfrwng yn hyderus, gan olygu testun, gosod blwch testun a mewnfudo lluniau. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r we yn hyderus i gywain gwybodaeth, gan ddefnyddio'r dechnoleg yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw medrau'r mwyafrif o ddisgyblion wedi'u datblygu'n llawn ar draws y cwricwlwm.

Yn aml dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r tueddiadau ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg nac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch wedi amrywio rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf mewn llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol. Mae data perfformiad yr ysgol yn dangos tuedd amlwg ar i lawr mewn datblygiad mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel disgwyliedig ymhob pwnc craidd wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae patrwm amlwg o gynnydd yng nghanran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefelau uwch, lefel 5 ymhob pwnc craidd. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi amrywio a rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf tra, bod perfformiad yr ysgol mewn Saesneg yn fwy cyson yn y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Gan fod niferoedd mor fach nid yw'n bosibl cymharu perfformiad bechgyn a merched na pherfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim â'r rhai nad ydynt yn gymwys.

**Lles: Da**

Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o gadw'n heini. Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac

yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn gwrtais tuag at ei gilydd ac ymwelwyr. Maent dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn ymroi i'w tasgau'n fuan.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n ddeallus at yr hyn maent yn ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol wedi datblygu'n llawn.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn weithgar ac maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau yn rheolaidd. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill. Mae llais y disgybl yn cael lle blaenllaw yng ngwaith strategol yr ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd maent wedi creu tystysgrif i ddathlu cynnydd disgyblion mewn darllen.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae patrwm o gynnydd yng nghanran presenoldeb yr ysgol. Mewn dwy o'r pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu priodol sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn bodloni gofynion y cwricwlwm cenedlaethol a maes llafur cytûn. Mae ymwelwyr i'r ysgol ac ymweliadau oddi ar safle'r ysgol yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, prin yw'r gweithgareddau allgyrsiol ar hyn o bryd.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw priodol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn eu cynlluniau. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd yn llawn, ar draws y meysydd dysgu a'r cwricwlwm. Mae gorddefnydd o daflenni gwaith ar adegau yn cyfyngu ar allu ychydig o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig. Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau priodol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau TGCh,fodd bynnag, nid yw'r ystod yn ddigon eang ac nid yw'r cynllunio'n sicrhau bod y medrau'n cael eu datblygu'n raddol.

Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn gadarn. Mae ymrwymiad yr ysgol i Siarter Iaith Môn yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn effeithiol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, ymweliad â'r ardal leol, Amgueddfa Werin yng Nghaerdydd a thrwy astudio gwaith ynglŷn ag awduron a beirdd Cymreig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn briodol, ynghyd a'r cyngor ysgol yn dangos ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd arbed ynni, lleihau gwastraff ac ailgylchu.

**Addysgu: Digonol**

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn cynllunio profiadau priodol sy’n ysgogi diddordeb ymysg y disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn cwestiynu’n effeithiol er mwyn datblygu gwybodaeth flaenorol ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae perthynas waith priodol rhwng staff a disgyblion sy’n cefnogi ymddygiad ac agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chymorthyddion yn cefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn briodol. Lle mae’r addysgu’n llai effeithiol, nid yw’r gweithgareddau bob amser yn ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion. Mae gorddibyniaeth ar ymyrraeth athrawon sydd yn cyfyngu ar y disgyblion i wneud penderfyniadau ac arwain eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith. Mae athrawon yn gosod nodau dysgu pwrpasol yn gyson. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon penodol nac yn cael digon o effaith ar godi safonau. Mae pob athro yn defnyddio dull cyson o farcio, ond nid yw’r sylwadau bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i’r disgyblion o’r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, a darparu ar eu cyfer.

Mae adroddiadau a gyflwynir i’r rhieni yn cynnig gwybodaeth addas iddynt ar gynnydd eu plant ac yn nodi targedau addas ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd y gofal, y cymorth a’r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu profiadau addas sy’n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae’r sesiynau addoli ar y cyd a’r cwricwlwm yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.

Mae’r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a sut i fod yn ddiogel. Cefnogir hyn yn dda yng ngweithgareddau’r dosbarth, fel y cornel chwarae rôl i hybu ffitrwydd yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n effeithiol gyda nifer o wasanaethau arbenigol fel y therapydd iaith a’r heddwas lleol. Mae’r cysylltiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau lles a phresenoldeb disgyblion.

Mae athrawon yn adnabod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cymorth priodol ar eu cyfer. Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle, ac ar y cyfan maent yn nodi targedau priodol sy’n cael eu hadolygu’n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â’r rhieni. Mae hyn yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd yn creu ethos cynhaliol a Chymreig. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth. Mae'r disgyblion yn gwneud defnydd addas o'r adeiladau ac iard yr ysgol sy'n eu hannog i gadw'n iach. Mae'r disgyblion yn elwa o ardal chwarae amlbwrpas ar gyfer gemau adeg egwyl a gwersi ymarfer corff.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd o ansawdd priodol. Mae gan yr ysgol ystod addas o adnoddau sy'n cefnogi dysgu ac addysgu effeithiol. Fodd bynnag, nid oes cyflenwad addas o adnoddau TGCh i sicrhau datblygiad llawn ym medrau digidol y dysgwyr. Nid yw ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n llawn.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel a chaiff y safle a'r adeilad eu cynnal a'u cadw'n lan a thaclus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

## Arweinyddiaeth: Da

O fewn amser byr mae'r pennaeth wedi dod i adnabod yr ysgol yn dda. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau cyfleoedd dysgu cyfoethog i bob disgybl. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae'n arwain trwy esiampl. Mae'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol yn seiliedig ar godi safonau. Mae trefniadau cadarn yn bodoli rhwng y ddwy ysgol ffederal sy'n sicrhau cyfleoedd rheolaidd i athrawon gydweithio, i gynllunio fel tîm, i fonitro'r dysgu, ac i osod strategaeth glir ar gyfer gwelliant. Mae hyn wedi arwain at godi safonau ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae gan yr holl staff swydd disgrifiadau priodol sy'n nodi eu cyfrifoldebau'n glir. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau, ac o ganlyniad mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn am safonau a blaenoriaethau gwella.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd addas wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel y strategaeth i hybu'r Gymraeg. Mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyflawniad disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata perfformiad ac maent yn ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Mae eu rôl ym mhrosesau strategol a threfniadau hunanarfarnu'r ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn dechrau herio'r ysgol yn fwy effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu yn effeithiol ac wedi eu sefydlu'n gadarn ar ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a chywain barn rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau monitro sy'n deillio o'r broses yn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Mae'r ysgol yn dadansoddi ystod gynhwysfawr o ddata sy'n sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus wrth greu hunan arfarniad o'r ysgol ac er mwyn cynllunio camau strategol ar gyfer gwelliant.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu cyfredol yn rhoi darlun cywir o'r ysgol ac yn nodi cryfderau a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn glir. Caiff y ddogfen ei gwerthuso'n rheolaidd sy'n dangos bod gan y pennaeth a'r arweinwyr adnabyddiaeth dda o'u hysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r modd mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ac i gryfhau sylwadau athrawon wrth farcio gwaith disgyblion.

Mae cyswllt amlwg iawn rhwng yr hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol. Mae'r blaenoriaethau'n deillio'n glir o'r meysydd a adnabuwyd yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn ddogfen weithredol sy'n canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau. Mae'n cynnwys blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella. Mae'r camau gweithredu ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys amserlen gweithredu, cyfrifoldebau staff, a gofynion cyllidol. Mae arweinwyr yn monitro'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn gyson er mwyn nodi camau gweithredu pellach yn ôl yr angen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a gwella lles disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm yn cyfrannu'n effeithiol at godi canrannau disgyblion ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, a chodi lefelau presenoldeb disgyblion.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau priodol gyda'r gymuned leol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaethau amrywiol yn y capel a'r eglwys leol. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o falchder at eu hardal leol.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni trwy wefannau cymdeithasol a llythyrau rheolaidd. Mae'n cynnig cyfleoedd cyson i rieni fynychu'r ysgol, er enghraifft, trwy gyflwyno gweithdai i ddatblygu agweddau penodol o'r cwricwlwm. Serch hynny, nid yw hyn wedi cael yr effaith ar wella partneriaethau rhwng yr ysgol a rhieni. Mae'r bartneriaeth yn parhau yn fregus.

Mae perthynas waith cadarn yn bodoli rhwng nifer o ysgolion lleol er mwyn rhannu arfer dda ac i ddatblygu strategaethau ar y cyd, er enghraifft mae athrawon o'r tair ysgol yn cydweithio'n effeithiol i addasu cynlluniau gwaith, i arsylwi gwersi ac i graffu ar lyfrau. Mae hyn wedi arwain at dargedau gwelliant, er enghraifft wrth sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion.

Mae partneriaeth effeithlon yn bodoli gyda'r cylch meithrin lleol. Mae'r cydweithio a'r ddarpariaeth yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau pontio effeithiol hefyd yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgu disgyblion wrth iddynt symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Er bod peth ansefydlogrwydd o ran staffio'r ysgol ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol nifer addas o staff cymwysedig sy'n darparu cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r pennaeth yn defnyddio staff o'r ysgolion sydd dan ei gofalaeth yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r ysgol yn defnyddio arbenigedd athrawon i addysgu cerddoriaeth o fewn y dair ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r cymorthyddion sy'n darparu cefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o ysgolion eraill er mwyn creu cynlluniau ac adnoddau darllen effeithiol. Er hynny, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn yn llawn ar safonau darllen y disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr ysgol yn monitro effaith y gwariant ar ddeilliannau disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae trefniadau ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu i'r athrawon yn bodloni gofynion statudol. Mae staff yn defnyddio'r amser yn effeithiol i gyd gynllunio ag athrawon y tair ysgol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chymorthyddion. Mae'r amcanion yn cyd-fynd yn glir â blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau, ac maent yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i ysgogi'r addysgu. Serch hynny, dros amser, nid yw arweinwyr wedi sicrhau bod gan yr ysgol gyflenwad eang o adnoddau TGCh er mwyn gweithredu gofynion y cwricwlwm yn llawn.

Mae'r pennaeth, a'r is-bwyllgor cyllid yn monitro'r cyllid yn ofalus. O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602172 - Ysgol Gynradd Niwbwrch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 14 | 5 | 4 | 10 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.7 | 60.0 | 75.0 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 4 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 60.0 | 75.0 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 4 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 100.0 | 75.0 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 7.1 | 0.0 | 0.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 14 | 5 | 4 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.7 | 80.0 | 75.0 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 28.6 | 0.0 | 0.0 | 70.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602172 - Ysgol Gynradd Niwbwrch**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 59 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.3 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 8 | 6 | 8 | 2 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 75.0 | 66.7 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 1 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 6 | 8 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 83.3 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 33.3 | 50.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 6 | 8 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 75.0 | 83.3 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 33.3 | 12.5 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 6 | 8 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 66.7 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 0.0 | 37.5 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 8 | 6 | 8 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 66.7 | 100.0 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 0.0 | 12.5 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 28 | 27<br>96% | 1<br>4% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 28 | 27<br>96% | 1<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 28 | 28<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 28 | 27<br>96% | 1<br>4% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 28 | 26<br>93% | 2<br>7% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 28 | 10<br>36% | 18<br>64% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 28 | 22<br>79% | 6<br>21% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 28 | 25<br>89% | 3<br>11% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mrs Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Gwyn Williams | Arolygydd Tîm |
| Mr David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Mr Emyr Wyn Davies Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Manon Williams (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.